



Annwyl Gwsmer

Cau Cangen Dros Dro

Swyddfa Bost Dociau Bute 110 Stryd Bute, Cardiff, CF10 5AD

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod fod y gangen uchod, yn anffodus, oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd, wedi cau dros dro ddydd Llun 5 Medi 2022. Mae'n ddrwg iawn gennyf am fod yn hwyr yn rhoi gwybod ichi'r tro hwn.

Hoffwn bwysleisio ein bod yn gweithio'n galed i gadw'r cyfnod cau mor fyr â phosibl ac ar hyn o bryd rydym yn ystyried y dewisiadau a fydd yn ein galluogi i adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig gwneud yn siŵr y bydd unrhyw wasanaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy i'r sawl a fydd yn ei redeg, ac i Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Byddai unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth yn cael eu trafod yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posteri yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid.

Os ydych chi'n gynrychiolydd lleol, Byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrdau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Hoffem ymddiheuro am yr anhwylystod a allai ddigwydd oherwydd y cau dros dro. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn. Oherwydd Covid-19, gall y bydd oriau agor y canghennau'n amrywio. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennym unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn ffyddlon

Katimay John

Katimay John
Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwmo i ddiogelu eich preifatrwydd. Mae gwytodaeth ynghylch sut y gwnawn hyn ar ein gwefan yn [postoffice.co.uk/privacy](https://www.postoffice.co.uk/privacy)

Canghennau eraill

Yn ystod y pandemig Coronafeirws mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor rhai canghennau. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Swyddfa Bost Holmesdale Street

Premier Express
53 Holmesdale Street
Caerdydd
CF11 7HH

Oriau agor

| | |
|---------------|---------------|
| Llun - Sadwrn | 08:00 – 20:00 |
| Dydd Sul | 09:00 – 17:00 |

Gwasanaethau

Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal ag Yswiriant Teithio Ar Gais a'r Loteri Genedlaethol.

Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a ramp wrth y fynedfa.

Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 0.9 milltir o gangen Dociau Bute, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio ar yr heol y tu allan i'r gangen. Mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

Swyddfa Bost Heol Eglwys Fair

Siop Spar
31 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AB

Oriau agor

| | |
|------------|---------------|
| Llun - Sul | 09:00 – 20:00 |
|------------|---------------|

Gwasanaethau

Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, ond ac eithrio dewis cynhwysfawr o Arian Teithio a Threth Cerbyd.

Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa.

Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 1.1 milltir o gangen Dociau Bute, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae nifer o feysydd parcio talu ac arddangos yn yr ardal. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro¹/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilyniwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn).

Postofficeviews.co.uk.

Comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹ Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cyngorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.